**Atodiad 2 – Adborth Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, 23 Ionawr 2018.**

**AIL-FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn amlinellu'r camau sydd wedi'u cymryd i adnabod yr opsiwn a ffafrir ar gyfer Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid ac yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor craffu ar y cynllun er mwyn eu cyflwyno i'r Cabinet ar y 13eg o Fawrth, 2018.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Rhoddwyd cryn sylw yn ystod y drafodaeth i'r ffaith bod y 4 opsiwn a amlinellwyd yn yr adroddiad yn golygu torri / lleihau'r grant blynyddol a roddir i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc, Y Geidiaid a'r Sgowtiaid, a chefnogi'r mudiadau hynny mewn ffordd wahanol.

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhelliad i beidio torri grant y mudiadau gwirfoddol ar y sail eu bod yn gwneud gwaith ardderchog yn ein cymunedau.
Mewn ymateb, eglurwyd wrth yr aelodau:-

- Y byddai argymhelliad o'r fath yn arwain at lawer llai ar gyfer pobl ifanc Gwynedd gan y byddai'n golygu gofyn i'r Cabinet lunio opsiwn gwahanol i'r 4 opsiwn a ystyriwyd eisoes, fyddai'n cadw'r elfen o £76,000 ar gyfer y mudiadau gwirfoddol, ond yn lleihau'r gyllideb ar gyfer gweddill y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Nad oedd nifer o fudiadau gwirfoddol eraill yn y sir, megis clybiau rygbi, yn derbyn unrhyw grant o gwbl gan y Cyngor.

Pleidleisiwyd ar y cynnig. Pleidleisiodd 6 aelod o blaid a 6 aelod yn erbyn. Ni chymerwyd pleidlais fwrw. Gan nad oedd mwyafrif o blaid, nid oedd gan y pwyllgor argymhelliad i'w gyflwyno i'r Aelod Cabinet.
Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod cydnabyddiaeth bod y sefyllfa yn un anodd iawn i bawb, gan fod y gyllideb wedi'i thorri eisoes a neb yn hoffi newid. Fodd bynnag, nid yw aros yr un fath yn opsiwn.
- Bod y gwaith craffu wedi dangos bod yna wahaniaeth barn ymhlith aelodau'r pwyllgor o ran a yw'r opsiwn a ffafrir ar gyfer ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn deg i holl ieuenctid Gwynedd, yn cynnig gwerth am arian, ac yn gynaliadwy i'r dyfodol, a hynny oherwydd y pryder am effaith y toriad yn y gyllideb ar bobl ifanc.
- Bod nifer yr ymatebion i'r holiadur yn galonogol iawn ac yn dangos bod yna lawer o ddiddordeb yn y maes.
- Bod y pwyllgor yn gefnogol i'r syniad o edrych ar sefydlu clybiau yn y gymuned a chynorthwyo'r clybiau hynny i sefydlu eu hunain. Hefyd, bod neges gryf gan y pwyllgor i'r Adran gysylltu â'r cynghorau cymuned i weld sut y gellir eu cynorthwyo i gynnal gweithgareddau a phrosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Bod pryder ynglŷn â'r effaith ar y bobl ifanc hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, yn benodol o safbwynt cael mynediad at y gwasanaeth, a phryder hefyd ynglŷn â'r effaith ar yr iaith.